# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Ystafell Gynadledda A – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Mawrth 2018

Amser: 09.00 - 16.05

# WRB(15)

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Ronnie Alexander<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts |
| Swyddogion: | Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Rebecca Hardwicke, Partner Busnes Adnoddau Dynol yr Aelodau<br>Martin Jennings, Arweinydd y Tîm Ymchwil |
| Staff y Pwyllgor: | Lleu Williams, Clerc<br>Sian Giddins, Dirprwy Glerc |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod.

1.2 Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr.

1.3 Nododd y Bwrdd y datganiad a wnaed gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 7 Mawrth ynghylch ei waith ar ddatblygu polisi urddas a pharch. Cytunodd y Bwrdd i adolygu'r polisïau perthnasol ar waith ar gyfer staff cymorth unwaith y derbyniwyd y polisïau ar gyfer Aelodau er mwyn sicrhau bod y ddau bolisi yn gyson.

1.4 Cytunodd y Bwrdd i adolygu sut mae'n ymgysylltu â'r Grwpiau Cynrychioliadol.

1.5 Trafododd y Bwrdd y dyddiadau cyfarfod dros dro a'r flaenraglen waith ddrafft hyd at fis Gorffennaf 2020 a chytunodd i edrych ar y mater eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 2 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad 2018-19

*Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2018-19*

2.1. Trafododd y Bwrdd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law ar y cynigion i gynyddu cyflogau staff cymorth ar gyfer 2018-19 o 2.3 y cant yn unol â ffigurau 2017 dros dro ar gyfer enillion canolrif ASHE yng Nghymru.

2.2. Yn sgil yr ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad, cytunodd y Bwrdd i gynyddu cyflogau staff cymorth ar gyfer 2018-19 o 2.3 y cant.

*Lwfans costau swyddfa ar gyfer 2018-19*

2.3. Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ar y cynigion i:

- gynyddu lwfans costau swyddfa 5 y cant yn unol â chyfradd CPI ar gyfer mis Medi 2017 ac i fynd i'r afael â'r galw am gostau cynyddol y disgwylir i Aelodau eu hariannu o'u cyllidebau;
- cynnig lwfans heb ei gapio a fydd yn cael ei gyfyngu i'r meini prawf a ddefnyddir ar hyn o bryd i ganiatáu i Aelodau weithredu argymhellion diogelwch.

2.4. Yn sgil yr ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad, cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r lwfans costau swyddfa 5 y cant ar gyfer 2018-19 a'r darpariaethau newydd ar gyfer gweithredu argymhellion diogelwch.

*Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer 2018-19*

2.5. Trafododd y Bwrdd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar ei benderfyniad y dylid cynnal y lwfans presennol ar gyfer Aelodau y tu allan i'r ardal o £9,200 y flwyddyn/£775 bob mis calendr, yr uchafswm ar gyfer atgyweiriadau hanfodol o £882 y flwyddyn a'r uchafswm o gostau rhent i Aelodau â dibynyddion o £120 y mis.

2.6. Cytunodd y Bwrdd i gynnal y darpariaethau o fewn y Penderfyniad ar gyfer y lwfans ond i ystyried y materion a nodwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad fel rhan o'i adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd y Bwrdd i drafod y materion eraill a nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystod darnau perthnasol o waith.

Yr ysgrifenyddiaeth i:

−gyhoeddi'r Penderfyniad diwygiedig;
−ysgrifennu'n ffurfiol at Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth yn cadarnhau'r newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2018-19.

## 3 Eitem i'w thrafod: Yr adroddiad gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru ar y rhwystrau a'r cymhellion dros sefyll mewn etholiad i'r Cynulliad

3.1. Nododd y Bwrdd, yn sgil gweithredu diwydiannol diweddar a'r tywydd gwael, nid oedd cynrychiolwyr o Ganolfan Llywodraethiant Cymru wedi gallu dod i'r cyfarfod i drafod yr adroddiad.

3.2. Trafododd y Bwrdd yr adroddiad a chytunodd i wahodd cynrychiolwyr o Ganolfan Llywodraethiant Cymru yn ei gyfarfod ym mis Mai i drafod camau nesaf yr adolygiad.

**Cam gweithredu:**

Yr ysgrifenyddiaeth i wahodd cynrychiolwyr o Ganolfan Llywodraethiant Cymru i'w gyfarfod ym mis Mai.

## 4 Eitem i'w thrafod: Adolygu strategaeth y Bwrdd flwyddyn yn ddiweddarach

4.1. Adolygodd y Bwrdd ei raglen waith ar gyfer y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn erbyn y pedair blaenoriaeth strategol y cytunwyd arnynt yn ei adroddiad ym mis Ionawr 2017.

**Cam gweithredu:**

Y Bwrdd i gyhoeddi crynodeb o'i benderfyniad yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18.

## 5 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Adolygiad o gefnogaeth staffio i'r Aelodau: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1. Trafododd y Bwrdd y dystiolaeth a ddaeth i law hyd yma ar gyfer adolygu cymorth staffio i Aelodau. Trafododd y Bwrdd pa faterion a allai fod angen eu hystyried ymhellach a pha faterion y gellid mynd i'r afael â nhw yn gynt.

5.2. Cytunodd y Bwrdd i ymgynghori ar y materion canlynol ar unwaith:
−cyllidebu Lwfans Staffio ar bwyntiau cyflog gwirioneddol;
−cyhoeddi'r gwariant y mae pob Aelod unigol yn ei wneud ar eu Lwfans Staffio;
−dileu'r cap o 111 awr ar gyfer staff cymorth a gyflogir yn barhaol;
−cynyddu'r hyblygrwydd o drosglwyddo arian rhwng cyllidebau.

5.3. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad fyddai dydd Gwener 11 Mai 2018.

5.4. Cytunodd y Bwrdd i edrych eto ar faterion eraill a nodwyd yn ystod yr adolygiad yn ei gyfarfod ym mis Mai.

**Camau i'w cymryd**

Yr ysgrifenyddiaeth i:

- gyhoeddi a hyrwyddo'r ymgynghoriad;
- paratoi crynodeb o'r ymatebion er mwyn i'r Bwrdd eu hystyried.